

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	22 CHWEFROR 2021
TEITL:	BUDDSODDI CYFRIFOL A BUDDSODDIADAU CARBON ISEL
PWRPAS:	Diweddarau'r Bwrdd ar weithgareddau'r Gronfa yn y meysydd buddsoddi cyfrifol a buddsoddiadau carbon isel, a chyflwyno datganiad drafft
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw eich diweddarau ar weithgareddau'r Gronfa yn y meysydd buddsoddi cyfrifol a buddsoddiadau carbon isel, a chyflwyno datganiad drafft.

2. DYLETSWYDD YMDDIRIEDOL

- 2.1 Rydym wedi bod yn meddwl yn ddiweddar sut y gallwn fuddsoddi yn fwy cyfrifol. Fel ymddiriedolwyr cronfeydd pensiwn mae'n fwy cyfrifol i ni gynllunio'n briodol, cymryd camau go wir, a dylanwadu lle'n bosib er lles ein hamgylchedd.
- 2.2 Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddyletswydd ymddiriedol i holl gyflogwyr y cynllun, eu staff a'u pensiynwyr. Y 'fiduciary duty' yma, yn bennaf, sy'n llywio penderfyniadau'r Pwyllgor Pensiwn. Nid yw'r Gronfa yn dad fuddsoddi am resymau anariannol yn unig, yn anad dim oherwydd gallai hyn arwain at her gyfreithiol.

3. DATBLYGIADAU

- 3.1 Mae'r rheolwyr a'r Pwyllgor Pensiynau wedi bod yn gweithio ers peth amser i sicrhau fod Cronfa Bensiwn Gwynedd, ein hymgynghorwyr a'n rheolwyr asedau yn edrych i fuddsoddi mewn asedau cynaliadwy. Rydym wedi gofyn i'n rheolwyr asedau ni ymgysylltu gyda chwmnïau o ran eu cynlluniau ar gyfer dyfodol carbon isel. Drwy hyn, mae'r Gronfa Bensiwn wedi rhoi pwysau ar gwmnïau i gynyddu ymdrechion yn y maes pwysig hwn.
- 3.2 Mae'r datblygiadau canlynol wedi digwydd gan Gronfa Bensiwn Gwynedd er mwyn cynyddu ein hymdrechion yn y maes:
- Diweddarau Datganiad Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa i nodi ein hegwyddorion buddsoddi cyfrifol.
 - Datblygu Polisi Buddsoddi Cyfrifol ar wahân (ar y gweill)
 - Mae 12% o fuddsoddiadau'r Gronfa wedi symud i gronfa Black Rock carbon isel.
 - Wedi cymeradwyo i symud cronfa Baillie Gifford o fewn Partneriaeth Pensiwn Cymru i gronfa sydd yn dad fuddsoddi o gwmnïau tanwydd ffosil.
 - Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn comisiynu 'decarbonisation overlay' gan Russell Investments a fydd yn lleihau ôl troed carbon o 25% ar rhai cronfeydd.

- Mae UBS, un o'n rheolwyr eiddo wedi cadw safle rhif 1 yn ei grŵp o gyfoedion ar gyfer ei sgôr 'ESG GRESB' yn 2020.
- Cydweithio drwy'r LAPFF i hyrwyddo'r safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol a dylanwadu'n bositif.

4. DATGANIAD GAN Y GRONFA

- 4.1 Gyda phwysigrwydd y maes yn cynyddu, rydym wedi penderfynu cyhoeddi datganiad (Atodiad 1) a fydd yn darparu safbwynt y Gronfa o ddadfuddsoddi o danwydd ffosil.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth ac i'r cadeirydd llofnodi'r datganiad.